

Statws Cymhwyster Bagloriaeth Cymru

Croesawa UCAC y cyfle hwn i ymateb i ymgynghoriad Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 'Statws Cymhwyster Bagloriaeth Cymru'.

Mae UCAC yn undeb sy'n cynrychioli athrawon, arweinwyr ysgol, tiwtoriaid a darlithwyr ym mhob sector addysg ledled Cymru.

I ba raddau y mae dysgwyr, rhieni, gweithwyr addysg mewn ysgolion a cholegau, cyflogwyr a sefydliadau addysg uwch yn deall ac yn gwerthfawrogi'r cymhwyster Bagloriaeth Cymru

Mae aelodau UCAC yn gyffredinol yn gadarnhaol dros ben am fodolaeth ac egwyddorion Fagloriaeth Cymru. Maent yn gweld ei gwerth yn glir iawn i ddisgyblion unigol o ran meithrin sgiliau a hyder, ac o ran agor llwybrau gyrfa a/neu i astudiaethau pellach. Gwelant yn ogystal fudd y Fagloriaeth i'r system addysg a chymdeithas ehangach, gyda'i gweledigaeth - nid annhebyg i 'Bedwar Diben' y cwricwlwm arfaethedig newydd - o greu dinasyddion 'crwn'. Mae'n gwbl wahanol i unrhyw 'gymhwyster' arall am ei fod yn rhyngddisgyblaethol, yn rhoi pwyslais ar sgiliau bywyd/cyflogadwyedd a chyd-destun cymdeithasol (lleol, cenedlaethol a rhyngwladol), ac yn rhoi elfennau pwysig o ddewis a rheolaeth i'r dysgwyr.

Mae rhai themâu, fodd bynnag, wedi amlygu eu hunain, a hynny'n gyson erbyn hyn dros nifer o flynyddoedd fel meysydd ble fyddai athrawon yn dymuno gweld newid. Fel mae'n digwydd, mae canfyddiadau'r adolygiad a gomisiynwyd gan Gymwysterau Cymru¹ yn adleisio'r themâu hyn yn agos iawn ac roedd croeso gan aelodau UCAC i'r adroddiad, ei ganfyddiadau a'i argymhellion.

• Diffyg hyfforddiant digonol i athrawon

Mae hyn wedi bod yn bryder ers y cychwyn cyntaf, gydag ail don o bryder pan ddaeth newidiadau i'r Fagloriaeth yn 2015, gan gynnwys i'r dulliau asesu. Adroddir yn ogystal bod yr hyfforddiant sydd ar gael ar gyfer rhai o'r 'heriau' yn annigonol. Yn gyffredinol ar draws y system, mae'n gynyddol anodd i athrawon gael eu rhyddhau ar gyfer hyfforddiant, hyd yn oed pan mae hyfforddiant gwbl berthnasol ar gael, oherwydd ystyriaethau cyllidebol.

Heb hyfforddiant, mae'n anodd sicrhau cysondeb (dysgwyd y wers honno'n amlwg iawn wrth gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen), ac mae camddealltwriaethau'n debygol o godi. Un enghraifft yw nad yw athrawon, yn gyffredinol, yn gwahaniaethu rhwng y Dystysgrif Her Sgiliau a'r Fagloriaeth, er bod y naill ond yn un elfen o'r llall.

Mae'n bwysig cofio nad pwnc yw'r Fagloriaeth, na'r Dystysgrif Her Sgiliau, ac nid oes athrawon wedi'u hyfforddi'n benodol ar gyfer ei dysgu. Mae pob un ohonynt yn athrawon pynciau eraill yn gyntaf, sydd wedi cael cyfrifoldeb ychwanegol dros gydlynw'r Fagloriaeth a/neu'r Dystysgrif Her Sgiliau. Gall fod y cyfrifoldeb yn aros yn nwylo'r athro/athrawes/athrawon am gyfnod o flynyddoedd, ond - yn fwy tebygol - mae'r cyfrifoldeb yn gallu newid o flwyddyn i flwyddyn yn ddibynnol ar amserlen yr ysgol. Mae gofynion a phatrymau hyfforddiant felly'n dra gwahanol i 'bynciau' arferol. Ni ddylid diystyru pwysigrwydd Addysg Gychwynnol Athrawon yn y cyswllt hwn, yn enwedig gyda'r cyrsiau ar eu newydd wedd yn cychwyn ym mis Medi 2019.

• Llwyth gwaith i ddisgyblion

Teimla aelodau UCAC fod gofynion y Dystysgrif Her Sgiliau yn ormodol, ac yn rhy feichus ar ddisgyblion yn sgil yr holl bwysau a gofynion eraill sydd arnynt yn ystod y cyfnod hwn o'u haddysg. Rhaid cwblhau prosiect a thair her, sef Her y Gymuned, Her Dinasyddiaeth Fyd-eang a Her Menter a Chyflogadwyedd, sy'n llwyth gwaith sylweddol. Yn ogystal, mae canfyddiad o ddyblygu rhwng yr Heriau, sy'n peri rhwystredigaeth i ddisgwyr.

• Llwyth gwaith i athrawon

Mae'r llwyth gwaith ynghlwm, yn bennaf, â'r

¹ Adolygiad o gynllun a model asesu'r Dystysgrif Her Sgiliau, a'i lle o fewn Bagloriaeth Cymru (Wavehill/UCL Institute of Education, Ebrill 2018)

- o gwaith cydlynu aruthrol
- o dulliau asesu, a'r ffaith na fu hyfforddiant digonol adeg cyflwyno newidiadau sylweddol i'r dulliau asesu
- o prinder adnoddau, yn enwedig yn y Gymraeg, i gyd-fynd â'r Dystysgrif Her Sgiliau
- **Strwythur, dulliau asesu ac effaith ar amser cwricwlaidd**
Prydera athrawon fod y strwythur a'r dulliau asesu'n rhy drwsogl, sy'n golygu ei fod yn gostus ac yn feichus i'w ddarparu.

Pryderant yn ogystal ynghylch dyblygu wrth i ddysgwyr fynd drwy'r wahanol 'lefelau' – Cyfnod Allweddol 4, Ôl-16 ac Uwch, a rhwng y gwahanol Heriau o fewn yr un 'lefel'.

Mae canfyddiad yn ogystal, ei fod yn cymryd amser cwricwlaidd sylweddol o'i gymharu â phynciau Safon Uwch, er enghraifft.

Statws y cymhwyster Bagloriaeth Cymru mewn ysgolion a cholegau, gan gynnwys targed Llywodraeth Cymru o ran sicrhau bod y cymhwyster yn cael ei fabwysiadu'n gyffredinol, ac effaith bosibl y dull gweithredu hwn;

Mae UCAC yn eithriadol o bryderus ynghylch dyfodol y Fagloriaeth ôl-16. Am nad yw wedi'i mabwysiadu'n gyffredinol hyd yma, mae'n cael ei defnyddio fel rhan o'r 'gêm' recriwtio dysgwyr ôl-16. Hynny yw, mae sefydliadau ble nad yw'r Fagloriaeth yn orfodol yn defnyddio'r ffaith honno i ddenu dysgwyr oddi wrth sefydliadau ble mae'n orfodol, a hynny yn ei dro yn rhoi pwysau ar sefydliadau sydd wedi bod yn llwyr ymrwymedig i'r Fagloriaeth i'w ddiraddio o statws gorfodol i statws dewisol.

Mae gennym bryderon penodol ynghylch effaith hyn ar y sector cyfrwng Cymraeg, oherwydd bron yn ddiwahân, mae'r sefydliadau ble nad yw'r Fagloriaeth yn orfodol (yn golegau addysg bellach, ac yn ysgolion) yn rhai nad ydynt yn cynnig darpariaeth gyfrwng Cymraeg. Mae colledion niferus, a chynyddol, felly o ddysgwyr o'r sector ôl-16 cyfrwng Cymraeg, ar yr union adeg pan mae Llywodraeth Cymru'n ceisio gwella cyfraddau dilyniant ieithyddol a datblygu sgiliau ieithyddol uwch ar gyfer amrywiaeth o lwybrau gyrfaol, gan gynnwys darpar-athrawon.

Byddai UCAC yn ffafrio polisi ble fyddai'r Fagloriaeth yn orfodol i bob dysgwr ôl-16, oni bai am eithriadau prin a phenodol iawn. Gallai Mesurau Perfformiad ôl-16 fod yn bwysig o ran gyrru ymddygiad yn y cyd-destun hwn.

Yr effaith ehangach y mae astudio Bagloriaeth Cymru yn ei chael ar bynciau cwricwlwm eraill ac ar ddarpariaeth addysg;

Fel y nodwyd uchod, mae pryder ynghylch faint o amser cwricwlaidd mae'r Fagloriaeth yn ei chymryd. Gall hyn achosi anawsterau i ysgolion o ran amserlennu, yn ogystal â bod yn anghymhelliaid i ddisgyblion 'disglair' sydd am sefyll pedwar neu pum cymhwyster Safon Uwch.

Gallai symleiddio rhywfaint ar y strwythur, y gofynion ac yn arbennig ar y dulliau asesu wneud gwahaniaeth mawr i leihau'r pryderon.

Ar nodyn cadarnhaol, teimlwn y byddai'n werth meddwl am y Dystysgrif Her Sgiliau fel dull ar gyfer pontio rhwng y cwricwlwm newydd (gyda'i bedwar diben, a'i Meysydd Dysgu a Phrofiad), i Gyfnod Allweddol 4 - y 'cyfnod cymwysterau.' Mae cwestiynau mawr wedi codi ynghylch sut byddai'r cwricwlwm amlddisgyblaethol newydd yn cyd-fynd â chymwysterau - ac a fyddai'r cymwysterau'n parhau'n bynciau unigol neu'n fwy rhyngddisgyblaethol. Efallai bod y Dystysgrif Her Sgiliau'n gallu cynnig rhai atebion i'r cwestiynau dyrys hynny.

Manteision ac anfanteision y cymhwyster Bagloriaeth Cymru i ddysgwyr, ysgolion a cholegau, cyflogwyr a sefydliadau addysg uwch.

Fel y nodwyd uchod, mae aelodau UCAC yn gweld gwerth diamheuol i'r Fagloriaeth i ddisgyblion unigol o ran meithrin sgiliau a hyder, ac o ran agor llwybrau gyrfa a/neu i astudiaethau pellach, gan gynnwys sicrhau lle mewn prifysgol na fyddai, o bosib, wedi digwydd oni bai am y Fagloriaeth.

Yn ogystal, gwelant fudd y Fagloriaeth i'r system addysg a chymdeithas ehangach, gyda'i gweledigaeth – nid annhebyg i 'Bedwar Diben' y cwricwlwm arfaethedig newydd; mae'n edrych ar y dysgwr fel unigolyn cyfan, ac fel rhywun a fydd yn bodoli ac yn gweithredu o fewn cymdeithas ehangach.

Mae'n gwbl wahanol i unrhyw 'gymhwyster' arall am ei fod yn rhyng-ddisgyblaethol, yn rhoi pwyslais ar sgiliau bywyd/cyflogadwyedd a chyd-destun cymdeithasol (lleol, cenedlaethol a rhyngwladol), ac yn rhoi elfennau pwysig o ddewis a rheolaeth i'r dysgwyr.

Mae prifysgolion yn adrodd eu bod yn gallu gweld gwahaniaeth clir mewn ymgeiswyr (a myfyrwyr blwyddyn gyntaf) sydd wedi ennill y Fagloriaeth (a'r Dystysgrif Her Sgiliau'n benodol) o ran eu haeddfedrwydd, eu gallu i gyfathrebu, a'u sgiliau bywyd.

I gloi

Mae UCAC yn pwysu ar yr holl bartneriaid perthnasol i weithredu i sicrhau bod elfen Tystysgrif Her Sgiliau'r Fagloriaeth mor atyniadol ac mor fuddiol â phosib i gynifer â phosib o ddisgyblion ledled Cymru.

Mae hynny'n cynnwys:

- fframwaith sy'n sicrhau cysondeb ei gweithrediad ar draws sefydliadau a sectorau
- cryfhau hyfforddiant a chefnogaeth i athrawon (cydlynwyr, ac aelodau eraill o staff)
- gwell gyfathrebu gyda'r holl randdeiliaid perthnasol
- symleiddio'r strwythurau, gofynion a dulliau asesu



Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@ucac.cymru

[f facebook.com/AthrawonCymru](https://www.facebook.com/AthrawonCymru) [t twitter.com/AthrawonCymru](https://twitter.com/AthrawonCymru)